WE WILL REMEMBER THEM

THE ROYAL BRITISH LEGION

1

2

3

4

5

Y Pabi

Mae'r pabi'n symbol cyfarwydd y mae llawer ohonom yn ei wisgo bob blwyddyn. Un o'r ychydig bethau a oroesodd ar feysydd y frwydr yng Ngogledd Ffrainc yn ystod y Rhyfel Byd Cyntaf oedd y pabi. Roedd ei wydnwch lliwgar siriol yn wyneb y fath erchyllter yn dod â gobaith a chysur i'r milwyr. Yn dilyn y Rhyfel, gwerthwyd pabïau papur i helpu milwyr a anafwyd a'u teuluoedd. Y Lleng Brydeinig Frenhinol sy'n gwarchod Coffadwriaeth yn genedlaethol erbyn hyn a'r Lleng a sefydlodd Ddydd y Cofio am y tro cyntaf ym 1921. Heddiw, mae'r Lleng yn cynhyrchu ac yn dosbarthu mwy na 36 miliwn o babïau bob blwyddyn. Mae'r arian sy'n cael ei godi drwy werthu'r pabi yn dal yn cael ei ddefnyddio i ofalu am gyn-filwyr o bob oedran a'u teuluoedd.

Cofebion

Mae cofebion rhyfel i'w cael mewn trefi a phentrefi ledled y DU. Cafodd llawer eu codi i gofio'r dynion a fu'n ymladd yn y Rhyfel Byd Cyntaf (1914–1918) ac ychwanegwyd atynt ar ddiwedd yr Ail Ryfel Byd (1939–1945). Codwyd cofebion rhyfel fel arfer gan y cymunedau lle'r oedd y dynion a laddwyd yn byw ac yn gweithio. Eu diben oedd bod yn symbol parhaol i atgoffa pobl o aberth y dynion a'r golled i'r gymdeithas.

Mae'r Ardd Goed Gofio Genedlaethol yn Swydd Stafford yn un o brif ganolfannau Coffadwriaeth y DU. Mae'r safle'n cynnwys sawl math o gofebion i'r rhai oedd yn gysylltiedig â rhyfel neu yr effeithiodd rhyfel arnynt, gan gynnwys Cofeb y Lluoedd Arfog. Ar furiau Gofeb hon ceir enwau dynion a merched y Lluoedd Arfog Prydeinig a laddwyd wrth ymladd dros eu gwlad, ers 1945.

Diwrnod y Cadoediad

Daeth y Rhyfel Byd Cyntaf i ben yn swyddogol ar yr unfed awr ar ddeg, ar yr unfed diwrnod ar ddeg ar yr unfed mis ar ddeg, 1918 – Diwrnod y Cadoediad. Dechreuodd yr arfer o gadw Dau Funud o Ddistawrwydd ar ben-blwydd Diwrnod y Cadoediad ym 1919 gan y rhai nad oeddynt eisiau anghofio am y miliynau a gafodd eu lladd, eu niweidio ac a ddioddefodd. Heddiw mae milynau o bobl yn rhoi'r gorau i'r hyn y maen nhw'n ei wneud a chadw Dau Funud o Dawelwch am 11 o'r gloch y bore ar 11eg Tachwedd bob blwyddyn i gofio am y rhai a ddioddefodd ym mhob rhyfel.

1 Pabïau'n tyfu yng nghaeau Fflandrys, Gwlad Belg

2 EUB Tywysog William, Dug Caergrawnt, yn gosod torch yng Ngwersyll Bastion, y prif ganolfan filitaraidd yn Affganistan, er cof am bawb a gollodd eu bywydau yn y gwrthdaro cyfredol

3 Mae cofio i bawb

4 Hen filwyr D-Day yn ymweld â thraethau Normandi

5 Cofeb y Lluoedd Arfog yn y Goedfa Goffa Genedlaethol yn Swydd Stafford

In Flanders Fields

In Flanders fields the poppies blow
Between the crosses, row on row,
That mark our place; and in the sky
The larks, still bravely singing, fly
Scarce heard amid the guns below.

We are the Dead. Short days ago
We lived, felt dawn, saw sunset glow,
Loved and were loved, and now we lie
In Flanders fields.

Take up our quarrel with the foe:
To you from failing hands we throw
The torch; be yours to hold it high.
If ye break faith with us who die
We shall not sleep, though poppies grow
In Flanders fields.

Lt Col John McCrae (1872–1918)

COFFADWRIAETH

WWW.BRITISHLEGION.ORG.UK